

# *Cyngor Tref*

## PWLLHELI.

Annwyl Aelod,  
Cynhelir cyfarfod y Cyngor Tref. **Nos Iau, 3ydd o Hydref, 2019** yn Siambr y Cyngor  
Stryd Penlan, Pwllheli am 6.30 y.h. a gwysir chwi'r Aelodau i fod yn bresennol.

Eric Price.  
Clerc.

Bydd y Siambr yn agored am 6.00 y.h. i chwi gael cyfle i astudio ceisiadau cynllunio a  
cheisiadau/llythyrau eraill, bydd hyn yn arbed toriad yn y gweithgareddau yn ystod cyfarfod y Cyngor.

Os bydd Aelod yn dymuno rhoi eitem ar raglen cyfarfod nesaf y Cyngor Tref rhaid rhoi gwybod i'r  
Clerc **cyntaf o Dachwedd 2019 ar gyfer Cyngor 7 fed o Dachwedd 2019.**

Gweddi Agoriadol.

---

I'r rhai hynny sydd yn dymuno, bydd cyfarfod i fynd i weddi cyn dechrau ar raglen y Cyngor .

### RHAGLEN

1. Presennol.
2. Ymddiheuriadau.
3. Datgan diddordeb.
4. Gair gan y Maer.
5. Aelodau'r Cyhoedd yn bresennol.
6. Materion Cyfansoddiadol a Staff.  
Materion staff.
7. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Cyngor mis Medi 2019.

# *Cyngor Tref*

## *PWLLHELI.*

### 8. Adroddiad y clerc.

- Llwybr cyhoeddus Ben Garn ac i lawr at yr afon nawr wedi agor. Wedi dechrau proses o gofrestru llwybr i Ben y Garn.
- Dal i ddisgwyl i'r WI FI ddechrau. **Yn fyw. Angen trefnu datganiad i'r wasg**
- Toiled - dim ateb i gwestiwn glanhau'r toiledau.
- Roedd llawer yn datgan trafferthion gyda gwaith blêr sydd yn cael ei wneud gyda thorri gwellt a barbio gan y Cyngor Sir yn cyfarfod Sir Unllais. Hefyd y drafferth cael atebion i hyn gan y swyddogion. Mae swyddog newydd gyda'r cyfrifoldeb nawr ac wedi ateb bydd sylw i safon y gwaith yn cael ei wneud nawr ac yn y dyfodol.
- Wedi cyfarfod gyda swyddogion TCC yng Nghaernarfon. Bydd 30 o gamerâu i gyd ym Mhwillheli. Hyn i ddechrau mewn dau fis. Mae'r system newydd yn cael lluniau llawer mwy clir. Bydd rhagor o drafodaeth ar hyn ond mae awgrymiad o gyfraniad fesul boblogaeth. Hyn yn llai am fwy o gamerâu nâr ffigwr awgrymwyd llynedd. Bydd modd i'r Heddlu edrych ar y camerâu o'r swyddfa ym Mhwillheli.
- Mae angen " floor plan" ar y Siambr i ddechrau'r broses o archwilio'r gwaith sydd ei angen.
- Wedi gyrru ffurflen gychwynnol parthed cynllun ail llenwi boteli Dwr a chael ffynnon dwr.
- Bydd cyfarfodydd gyda'r Heddlu yn ail ddechrau mis Tachwedd. Angen enwau rhai fydd yn y cyfarfodydd.
- Siop Ffactori- llythyr ar y bwrdd.
- Bu cais am gymorth i fynd i gynrychioli Cymru mewn cystladeuath pool yn Nhwrci gan unigolyn. Yn anffodus nid oes deddf i ymateb y ffafriol i hyn. Clerc wedi gyrru llythyr.
- Mae angen paratoi a chyhoeddi cynllun i amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn fwriadau ei wneud i gydymffurfio a dyletswyddau cynnal a chryfhau Bioamrywiaeth o fewn ein meysydd gwaith presennol. Hyn o dan Ddeddf Amgylchedd Cymru 2016, adran 6.
- Ambell i unigolyn sydd yn byw ym Mhwillheli yn gofyn pam bod ffafriaeth i Borthmadog parthed gwesty pan mae angen un ym Mhwillheli?
- Teimlo bod angen arwyddion gwell yn y Siambr i arwain y cyhoedd i swyddfa'r clerc.
- Gwaith pompren Bont Solomon yn edrych fel bod wedi gorffen ond dal wedi cau.
- Mae 3 tendr wedi dod parthed cyfryngau cymdeithasol.
- Sul y Cofio- 10-11-19?
- **Mainc goffaol gyda phlac i'r cyn clerc yn ei le. Mae awgrym cael**

# Cyngor Tref

## PWLLHELI.

gwasanaeth priodol ar gyfer 'dadorchuddio'r' fainc.

- BDO- caeedig

Mae banciau yn cysoni.

9. Cynllunio.
10. Lleoliad Pen Ddelw Cynan.
11. Stryd Moch. Cyng. E. J. Hughes.
12. Cais am gyfraniad ariannol Cymdeithas Pared Dewi Sant.
13. Cais am gyfraniad ariannol gan Glwb Criced Pwllheli.
14. Cais am gyfraniad at noson Tan wyllt Pwllheli. Arian mynd at achosion Pwllheli.
15. Coed yn tyfu ar safle bws Pwllheli sydd yn rhwystredig i barcio bws. Cyng. Hefin Underwood.
16. Tybiau blodau. Cyng. Elfed Gruffydd.
17. Derbyniadau.

500	Rhent Adams. X dau.	CR
4750	Rhent Maes Parcio.	CR
36,500	Praesept.	CR

18. Taliadau.

90	Arwyddion i lwybrau cyhoeddus.	203165
108	DWN investment account. (Domain . cymru i`r wefan.)	203166
1484	Atkin. Darfod agor llwybr Ben Garn i lawr at yr afon.	203167
937.06	Costau gweinyddol y Siambr.	Sieciau
370.50	HMRC.	203170

# *Cyngor Tref*

## *PWLLHELI.*

Cynhelir Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 7 fed Dachwedd 2019.  
Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau Tachwedd cyntaf 2019.

Eric Price.

Clerc.